



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

15 MEDI 2020

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adolygiad Thematig Estyn

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am Adolygiad Thematig arfaethedig Estyn, fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19.

2.2 Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd ac effaith y ddarpariaeth, cymorth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, a'r gwaith i sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r arweiniad addysgu a dysgu ar waith o fis Medi 2020.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Bydd Estyn yn ymgysylltu ag ysgolion yn yr awdurdodau lleol ac yn cynnal arolygon cenedlaethol o randdeiliaid. Ni fydd unrhyw ymgysylltu uniongyrchol mewn perthynas â'r gwaith yn cychwyn nes i ysgolion ddychwelyd yn llawn ar 14 Medi 2020, a bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cael ei chasglu ar ddiwedd mis Medi / dechrau mis Hydref. Bydd y gwaith i gasglu tystiolaeth yn cael ei wneud o bell.

3.2 Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddwy agwedd, a bydd y naill a'r llall ohonynt yn ystyried unrhyw gymorth teilwredig neu wahanol a ddarperir ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi parhad datblygiad iaith:

- Hyrwyddo dysgu – pa waith sicrhau ansawdd a wnaed i wella ansawdd y cynnig dysgu, a sut mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu arweiniad a dysgu proffesiynol pellach? Pa mor effeithiol yw'r arfer o gynllunio a gweithredu'r

rhaglenni dysgu 'dal i fyny' yn effeithiol ar draws ysgolion, a beth yw'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn?

- Cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed – sut mae'r awdurdod lleol wedi targedu gwasanaethau a chymorth i ddysgwyr sy'n agored i niwed i'w cynorthwyo i ymgysylltu â dysgu, pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

3.3 Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa mor dda yr ymatebodd arweinyddiaeth gyffredinol yr awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol mewn ffordd amserol a chymesur i'r heriau amrywiol, a pha mor dda defnyddiwyd dysgu parhaus i lywio camau gweithredu.

3.4 Mae Estyn yn gweithio gyda grŵp bach o gyfarwyddwyr i fireinio'r adolygiad, gyda mwy o fanylion i ddilyn cyn bo hir.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Llythyr Estyn – Adolygiad Thematig.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad uchod yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhllygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, felly cymeraf fod y gwaith o gynnal yr adolygiad thematig yma o ddulliau cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed i'w flaenoriaethu o fewn adnoddau presennol GwE.
